CYNLLUN COLEGAU CYMRU

2014 - 2015

ADRODDIAD Y CYMEDROLYDD: Ann Tegwen Hughes

MEHEFIN 2015

Cynnwys

1. Rhagair (tud 4)

2. Trefn Ymweliadau Cymedroli 2015 (tud 4)

2.1 Ffurf ac amserlen ymweliadau arsylwi a chymedroli, Gwanwyn 2015

2.2 Amcan o gynnwys y cyfweliadau yn ôl Y Crynodeb Safonau a'r Nodweddion

2.2.1 Ar Gam 1

2.2.2 Ar Gam 2

2.2.3 Ar Gam 3

3. Cyfweliadau Cymedroli 2015 (tud 6)

4. Darpariaeth y Broses Cymedroli o fewn pob Canolfan (tud 7)

4.1 RHAN A:

4.1.1 A oedd ffurf yr asesu'n gytbwys a theg o fewn pob sefydliad?

4.1.2 A oedd ffurf yr asesu'n adlewyrchu nodau'r rhaglen?

4.1.3 A gawsoch gyfle i gyfweld â chroestoriad o hyfforddeion?

4.1.4 A oedd y trefniadau ar gyfer y broses ac yn gyffredinol yn foddhaol?

4.1.5 A roddwyd ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad diwethaf?

4.1.6 Unrhyw Sylwadau Pellach

4.2 RHAN B:

4.2.1 Materion Asesu, Y Portffolios ayb

4.2.3 Safonau Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau'r hyfforddeion

4.2.3 Cymhariaeth safonau â sefydliadau eraill

4.2.4 Y Broses Cymedroli

4.2.5 Enghreifftiau o arfer dda

4.2.6 Sylwadau Pellach

5. Argymhellion (tud 13)

5.1 Cefnogaeth

5.2 Porth

5.3 Amserlennu a staffio sesiynau

5.4 Amserlenni ymweliadau cymedroli

5.5 Partneriaeth gydag ysgolion

Atodiad A - Crynodeb Data Cynllun Colegau Cymru 2015 (tud 18)

- Niferoedd sy'n astudio'r ddau gwrs ar draws y Canolfannau
- Cyrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn
- Cyrhaeddiad manwl myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

1. Rhagair

Dros y blynyddoedd bu'r modd o gasglu data yn ystod y broses cymedroli, cofnodi canlyniadau a chreu cysondeb yn gymhleth. Gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn derbyn cyfrifoldeb am weithredu a gwarchod y Cynllun o hyn ymlaen, sefydlir cysondeb, hygrededd a thryloywder pellach ar lefel Cenedlaethol (Cynllun Data 2013/14) fydd yn arwain at ddatblygiadau ehangach a chyfle i hyfforddeion ac athrawon sy'n cymhwyso camu 'dros y bont' yn hyderus. Yng nghyfarfod Blynyddol Hydref 2014 trafodwyd ffurf adroddiad y cymedrolydd a phenderfynwyd ymgorffori'r newidiadau isod eleni.

2. Trefn Ymweliadau Cymedroli 2015

Anfonwyd y canllawiau dilynol at y tiwtoriaid ym mis Chwefror wrth gadarnhau neu holi am restr o ddyddiadau cyfleus i ymweld â phob Canolfan.

2.1 Ffurf ac amserlen ymweliadau arsylwi a chymedroli, Gwanwyn 2015:

9.00yb – 12.30yp: Cyfweld â grwpiau yn ôl yr asesiad mewnol ar bob Cam i gadarnhau'r nodweddion. Y cyfweliadau grŵp i barhau tua 20 munud gyda'r amserlen yn rhedeg bob hanner awr; trefnir croestoriad o unigolion ar y Camau, gyda'r ddealltwriaeth y bydd aelodau rhai grwpiau ar brofiad ysgol.

1.00yp ymlaen: Cyfle i gwrdd â thiwtoriaid a chynnal trafodaeth (i) am unrhyw anawsterau penodol sy'n berthnasol i'r Ganolfan, (ii) am faterion perthnasol a chyffredinol ynglŷn â'r cynllun, gan nodi sylwadau ar gyfer trafodaethau pellach yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf; cyfle yn ystod y prynhawn i ddarllen croestoriad o aseiniadau, edrych ar bortffolio/s unigolion a'r adnoddau a grewyd gan hyfforddeion a hynny yng nghwmni'r tiwtor/iaid os yn bosib.

2.2 Amcan o gynnwys y cyfweliadau yn ôl Y Crynodeb Safonau a'r Nodweddion

2.2.1 Ar Gam 1

- Llafar: Cyfarch, cyflwyno'u hunain, manylion personol – yn ôl */**/***

- Darllen: Dewis o lyfr addas i ddisgyblion cynradd (Blynyddoedd Cynnar) gan y tiwtor i aelodau'r grŵp ddarllen/ymateb i *gwestiynau syml/**ymestynnol/***ymestynnol
- Cyflwyno gwybodaeth am y *sefydliad (lleoliad, cwrs Cymraeg etc)/+**lleoliad profiad ysgol a phrofiadau dysgu'r Gymraeg i ddisgyblion/+***sôn ac arddangos adnodd a gyflwynwyd/ddefnyddiwyd yn y dosbarth

2.2.2 Ar Gam 2

- Llafar: Cyfarch a chyflwyno manylion personol yn hyderus, yn gywir ac ymestynnol ee: arddangos gallu i amrywio ffurf y ferf, *gorffennol/dyfodol/ trafod* yn ôl*/**/**
- Trafod cyfnod profiad ysgol, ee: *Oeddech chi yn…? (dysgu/gyfrifol am… mwynhau…*)
- Darllen: Tiwtor yn dewis llyfr (CA2) i'r grŵp drafod a *mynegi barn/+**ymestyn trafodaeth/+***cymharu â llyfr/au neu ddeunyddiau ymestynnol ar gyfer yr iaith
- Cyflwyno enghraifft o gynllun gwers a gyflwynwyd (os yn bosib) a thrafod y cynnwys

2.2.3 Ar Gam 3

- Llafar: Dilyn y patrymau uchod gan gynnal sgyrsiau naturiol/ ymestynnol, holi cwestiynau perthnasol, ymateb i safbwynt, trafod agweddau ar ddysgu Cymraeg, arddangos gwybodaeth o lenyddiaeth/ y sîn pop/celf/gweithgareddau perthnasol /mannau hanesyddol yn ôl argymhellion Y Cwricwlwm Cymreig a lefel hyfedredd unigolion (Cam 3*/**/***) Efallai mai pâr neu unigolyn fydd mewn cyfweliad Cam 3
- Darllen: Testun addas byr o *Golwg/bapur newydd* yn hyderus *trafod cynnwys/**cyfleu ymateb ac egluro cynnwys/***cyfleu gwybodaeth, mynegi barn a dadansoddi ystyr.
- Cyflwyno enghraifft o werthusiad gwers sy'n dystiolaeth o waith ysgrifenedig ymestynnol yn ôl Nodweddion y Safonau. */**/*** neu waith ysgrifenedig estynedig arall.

3. Cyfweliadau Cymedroli 2015

Mawrth 10fed: Prifysgol De Cymru, Caerllion [17 hyfforddai BA (Anrhydedd)] - 4 grŵp

Mawrth 25ain: Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Abertawe [22 hyfforddai TAR] - - 6 grŵp

Ebrill 22ain: Ysgol Addysg Bangor [19 hyfforddai BA (Anrhydedd)] - 5 grŵp

Ebrill 24ain: Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Caerdydd [13 hyfforddai TAR] - 3 grŵp

Ni lwyddwyd trefnu diwrnod i ymweld â hyfforddeion BA yng Nghaerfyrddin.

Nid hawdd trefnu cyfnodau cyfleus i ymweld â rhai canolfannau gan fod hyfforddeion yn dilyn amserlenni gwahanol, rhai yn mynychu sesiynau hyfforddiant mewnol ac eraill ynghanol profiad dysgu. Diolchir i'r arweinyddion cwrs a'r tiwtoriaid am drefnu croestoriad digonol o hyfforddeion i fynychu'r cyfweliadau, anfon gwybodaeth am y grwpiau o flaenllaw ac am eu presenoldeb hwythau ar gyfer trafodaeth a'u mewnbwn yn ystod y prynhawn.

Cyfwelwyd 71 o hyfforddeion o fewn 18 grŵp eleni; 9 grŵp TAR, cyfanswm o 35 o hyfforddeion a 9 grŵp BA (Anrhydedd), 36 o hyfforddeion. Fe nodwyd uchod nad oedd modd trefnu ymweliad cymedroli â hyfforddeion cwrs BA Caerfyrddin. O leiaf, bu modd cyfarfod â'u tiwtoriaid sy'n dysgu'r cyrsiau TAR yn Abertawe (a BA yng Nghaerfyrddin) wrth ymweld â'r hyfforddeion TAR yn Abertawe. Gan y bydd ystadegau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cofnodi'r cyrsiau TAR a Chyrsiau BA ar wahân (Atodiad A) bydd canfyddiadau'r adroddiad ystadegol eleni'n gyflawn, ond nid yw'r adroddiad ysgrifenedig yma'n cynnig darlun cyflawn. Mae cyfyngiadau amserlen a phrinder oriau'r hyfforddeion cyrsiau TAR o'u cymharu ag oriau dysgu a'r profiadau ehangach a geir yn ystod cyrsiau BA tair blynedd wedi creu darlun anghytbwys yn y gorffennol; bydd cofnodi cyraeddiadau'r ddau gwrs ar wahân, casglu a dadansoddi data yn cynnig darlun mwy clir a chytbwys at y dyfodol ac yn sicr o arwain at wella safonau cysondeb o fewn y canolfannau.

Un newid yn ffurf yr Adroddiad Blynyddol yw hepgor adroddiadau'r Canolfannau unigol. Derbyniodd arweinydd cwrs pob canolfan adroddiad ar y grwpiau yn fuan wedi'r ymweliadau cymedroli, yn cynnwys cofnod o'r cyfweliadau grŵp, cadarnhad o Gam a lefel (*/**/***) unigolion ar y diwrnod, ynghŷd â nodiadau byrion o'r hyn drafodwyd gyda thiwtoriaid yn ystod prynhawn yr ymweliad. Y bwriad yw cyflwyno'r prif bwyntiau i'w trafod ymhellach yn y Cyfarfod Blynyddol; bydd cofnod o'r adroddiadau anffurfiol yma ar gael i swyddogion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

4. Darpariaeth y Broses Cymedroli o fewn pob Canolfan

4.1 Rhan A

4.1.1 Oedd ffurf yr asesu'n gytbwys a theg o fewn pob sefydliad?

Oedd. Roedd y trefniadau'n sicrhau bod cyfle i hyfforddeion weithio gyda'i gilydd o fewn grŵp ac ymateb yn unigol, arddangos sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu yn ystod y cyfweliad, egluro ac arddangos ar lefel bersonol y deunyddiau a grëwyd/gasglwyd i ddatblygu medrau dysgwyr ifanc yn y dosbarth. Llwyddodd hyfforddeion pob sefydliad i fynegi barn a thrafod ffurf a chynnwys y ddarpariaeth ar eu cyfer.

4.1.2 A oedd ffurf yr asesu'n adlewyrchu nodau'r rhaglen?

Oedd, fe nodwyd cyrhaeddiad pob hyfforddai a gyfwelwyd yn eglur ac roedd yr asesiadau mewnol yn adlewyrchu'r nodau priodol.

4.1.3 A gawsoch gyfle i gyfweld â chroestoriad o hyfforddeion?

Do, er bod rhai'n absennol. Bu'r tiwtoriaid yn fanwl wrth ddewis a dethol cynrychiolaeth deg o'u grwpiau. Mae'n anochel fod rhai aelodau o grŵp ar wahanol lefel, oherwydd cefndir a phrofiad blaenorol o'r Gymraeg ac mae'n naturiol bod croestoriad o fedrau o fewn pob grŵp a gyfwelir.

4.1.4 A oedd y trefniadau ar gyfer y broses ac yn gyffredinol yn foddhaol?

Roedd y trefniadau a wnaed yn gweithio'n effeithiol iawn. Bu'n anodd i diwtoriaid (yn enwedig y rhai rhan amser) weithredu'r drefn mewn rhai

Canolfannau gan fod hyfforddeion ar brofiad dysgu a'r angen i gysylltu â hwy yn cymryd amser a chymhlethu trefniadau. Mae angen datrys yr elfen yma; yn anffodus bu'n amhosib ymweld ag un Canolfan yn ystod y broses cymedroli.

Bu anawsterau amserlennu'r cyfnodau i gyflwyno a dysgu'r Cynllun mewn un Canolfan; nodwyd bod amserlennu'r sesiynau Cymraeg rhwng pedwar a phump o'r gloch ar brynhawn Gwener wedi amharu'n fawr ar bresenoldeb. Wedi cryn anhawster, llwyddwyd newid i gyfnod mwy cyfleus a bu'r ymateb gan hyfforddeion yn bositif iawn. Roedd colli'r cyflwyniadau cynnar, mae'n debyg wedi amharu ar ysgogiad ac ymrwymiad rhai myfyrwyr ond roedd y rhai a gyfwelwyd yn barod iawn i drafod hynny ac yn gefnogol iawn i'r sesiynau Cymraeg.

Yr awgrym a'r perygl yw y gallai hyfforddeion gredu bod y Ganolfan yn cyfrif y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg i ddysgwyr yn ddi-bwys os yw'r amserlennu ar adeg mor anghyfleus; y mae'n trosglwyddo neges negyddol. Ond roedd yr hyfforddeion a gyfwelwyd yn gweld bod gwerth mawr i'r sesiynau Cymraeg a'i fod yn hanfodol iddynt fynychu a dilyn y Cynllun fel darpar athrawon cynradd sy'n cymhwyso a gobeithio gweithio mewn ysgolion yng Nghymru.

4.1.5 A roddwyd ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad diwethaf?

Do a chyfeirir ymhellach atynt ar ddiwedd adroddiad eleni. Mae'r broses asesu a chymedroli o dan adolygiad a thiwtoriaid yn ymwybodol o'r argymhellion a'r gweithredu ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro ac o dan sylw parhaol aelodau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth ymdrin â dyfodol y Cynllun.

4.1.6 Unrhyw Sylwadau Pellach

Credir bod diffyg ymwybyddiaeth am Nodau, Amcanion a chynnwys y Cynllun ymŷsg rhai aelodau timau rheoli yn y Canolfannau. Sicrheir eleni bod cyfieithiad cryno o brif ddarganfyddiadau, yr argymhellion ayb yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd yr adroddiad Os nad yw'r trefniadau ar gyfer darpariaeth dysgu'r Gymraeg i ddysgwyr HCA yn cymharu'n deg â threfniant dysgu pynciau eraill yn y Canolfannau, pa obaith sydd o ddatblygu athrawon cynradd llwyddiannus fydd yn cyflwyno'r Gymraeg i ddysgwyr ifanc gydag

argyhoeddiad? Mae'n anodd i diwtoriaid gwblhau'r gofynion mewn oriau prin; maent yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau i ddatblygu cymwysterau dysgu ac addysgu'r Gymraeg yn llwyddiannus yn y sector cynradd, cyfnod Blynyddoedd Cynnar a CA2 ac angen codi ymwybyddiaeth a statws addysgu a dysgu'r iaith dros bob lefel staffio o fewn sefydliad. Heb fod yn ymwybodol o gynnwys a phwrpas y Cynllun nid hawdd gwireddu'r gobaith i greu disgyblion cwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd un ar bymtheg oed.

Ofnir bod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol am fodolaeth y Cynllun mewn amryw o'n hysgolion cynradd o drafod profiadau rhai hyfforddeion eleni fu'n ceisio cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg i ddysgwyr ifanc yn ystod cyfnodau profiad mewn ysgolion. Nid yw'n argoeli'n dda o ystyried cynnwys adroddiadau addysgiadol diweddar sy'n pryderu am gyflwr addysgu'r Gymraeg ac yn trafod newidiadau manwl ym myd addysg Cymru a'r argymhellion pellgyrhaeddol a wneir ynddynt.

4.2 Rhan B

4.2.1 Materion Asesu, Y Portffolios ayb

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o dreialu tasgau Portffolio TAR a BA, nid yw pob sefydliad wedi medru cychwyn gosod y tasgau, ond roeddynt wedi eu hymgorffori yng ngofynion y mwyafrif o sefydliadau. Gwelwyd enghreifftiau hynod safonol mewn rhai Canolfannau. Dylid gweld y darlun cyflawn yn 2015/2016

4.2.2 Safonau Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau'r hyfforddeion

Ar y cyfan roedd safonau Gwybodaeth a Dealltwriaeth yn dda ac yn dilyn nodweddion y Camau a'r lefelau o fewn y 3 cham; llwyddodd hyfforddeion i drafod amcanion, cynnwys a pherthnasedd yr addysgu a dysgu'n ddeallus; roedd amryw o'r rhai a gyfwelwyd ymhob sefydliad yn amlwg yn teimlo boddhad o ddilyn y cyrsiau Cymraeg. Teimlent eu bod yn llwyddo i ddatblygu sgiliau ieithyddol personol wrth ddysgu a datblygu elfennau methodolegol ar gyfer y dosbarth. Nododd amryw ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant sy'n arweiniad a chanllaw gyfoethog o foddau dysgu iaith i

ddisgyblion ifanc. Soniwyd mewn sawl grŵp bod cynnwys y fethodoleg a gyflwynir yn fuddiol a pherthnasol ar gyfer addysgu yn gyffredinol.

Gwelwyd enghreifftiau o hyfforddeion sy'n or-ddibynnol ar gymheiriaid wrth ymateb ar lafar, mae'n gymorth i'r rhai sy'n ansicr oherwydd cefndir; mae cefnogaeth cyd-fyfyrwyr yn annogaeth dda a dyna un o fanteision '*grwpio amrywiol'*. Cwyn cyson gan diwtoriaid yw anawsterau grwpio cytbwys ar gychwyn blwyddyn gan fod anghenion pob unigolyn mor wahanol. O ystyried nifer fechan yr oriau cyswllt yn enwedig â'r myfyrwyr ôl radd, y syndod yw bod cymaint yn cael ei gyflawni.

Roedd safon iaith a hyder nifer o'r hyfforddeion yn dda iawn ar lafar a hynny o dan amgylchiadau cyfweliad. Llwyddodd y mwyafrif i gyflwyno a chynnig gwybodaeth gefndirol bersonol, darllen a thrafod llyfr/testun addas i blant yn y dosbarth a holi cwestiynau'n effeithiol yn ôl y gofynion. Arddangoswyd sgiliau medrus iawn wrth gyflwyno ac roedd amryw yn meddu'r gallu i ehangu ar gynnwys testun yn naturiol ac mewn modd perthnasol. Gwelwyd deunyddiau deniadol a phwrpasol a gallai'r unigolion egluro sut i'w defnyddio i ddatblygu iaith disgyblion ifanc, gyda rhai yn cyfeirio at lwyddiant wrth dreialu'r adnodd yn yr ysgol.

Llwyddodd y mwyafrif a gyfwelwyd i ymateb i gwestiynau syml. Syndod braidd, o holi grŵp o ddechreuwyr pur oedd sylweddoli nad oeddent eisoes yn ymwybodol bod enw Cymraeg ar eu dinasoedd neu drefi yn yr Alban, Iwerddon a Lloegr!

4.2.3 Cymhariaeth safonau â sefydliadau eraill

Gan fod cefndir ieithyddol hyfforddeion pob sefydliad yn amrywio'n fawr, nid hawdd yw cymharu a mesur llwyddiant, rhaid gwneud hynny'n ddamcaniaethol; daw hyn yn eglurach wrth i'r awdit mynediad a'r awdit ddiwedd cwrs ddadansoddi a mesur llwyddiant yn ystadegol. Haniaethol a greddfol yw'r sylwadau hyn, ond yn sicr mae'r safonau yn drylwyr ymhob sefydliad.

4.2.4 Y Broses Cymedroli

Bu'n anodd trefnu ymweliadau cymedroli fel y nodwyd eisoes, gan fod yr amserlen yn dynn iawn a nifer o hyfforddeion ar brofiad dysgu; serch hynny, llwyddwyd i ymweld â phedwar o'r pum Canolfan a bu cyfle i drafod gyda thîm tiwtoriaid pob Canolfan. Efallai y byddai'n fuddiol trafod ymhellach yn y cyfarfod blynyddol i weld a oes modd clustnodi y bydd diwrnod cymedroli yn rhan o amserlen myfyrwyr yn y dyfodol a'i fod yn ddisgwyliedig gweithredu'r broses yn ystod cyfnod penodedig y Gwanwyn dilynol. Gellid ymgorffori'r disgwyliad ymhell cyn cychwyn y flwyddyn academaidd; ni fydd modd gweithredu hynny ar gyfer 2015-2016.

Llwyddwyd eleni i weithredu'r cymedroli rhwng Mawrth 10fed ac Ebrill 24ain 2015.Teimlir, wedi ystyried opsiynau eraill mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur a chymharu'r datblygiadau, yn enwedig gan nad yw'r Cynllun yn rhan annatod o'r radd ymhob Canolfan; o weld a siarad yn agored gyda hyfforddeion, tiwtoriaid ac arweinyddion cwrs mae modd adrodd yn ôl yn ddilys ar yr hyn sy'n digwydd. Nid yw hynny'n bosib bob amser o ddadansoddi ystadegau ar sgrîn.

Yn naturiol, mae'r gwahaniaethau yn yr hyn a gyflawnir gan grwpiau hyfforddeion yn y Canolfannau yn anodd i'w mesur ac yn newid o flwyddyn i flwyddyn yn ôl eu gwybodaeth gynhenid. Nid yw'r man cychwyn yn wastad ond mae'r asesu mewnol yn drylwyr a theg yn dilyn canllawiau cyffredin manwl; hynny yn y diwedd yw'r llinyn mesur a ddefnyddir. Mae'n angenrheidiol cloriannu'r hyn a gyflawnir ac mae'r broses cymedroli'n rhan hanfodol o hyn. Y gobaith yw bod tiwtoriaid yn ei gyfrif yn broses adeiladol yn hytrach na bygythiol a deall mai er mwyn ystyried cyfundrefn, mireinio a datblygu cynnwys a darpariaeth yr addysgu o fewn pob canolfan a sicrhau cysondeb y gosodwyd elfen cymedroli blynyddol yn rhan o Gynllun Colegau Cymru. Gan fod staff rhan amser yn newid yn gyson o fewn Canolfannau, yn enwedig efallai, y tiwtoriaid sy'n dysgu ar y Cynllun, mae'n hanfodol trosglwyddo'r neges iddynt mai proses adeiladol yw'r cymedroli. Y bwriad yw cynnig cefnogaeth ac argymhellion ar gyfer gwelliant a datblygiad sustemau'r Cynllun ar ôl derbyn darlun cyflawn o'r gweithredu ymhob Canolfan; nid yw'n feirniadaeth negyddol.

Mae asesiadau'r tiwtoriaid yn cyd-fynd yn agos â'r asesiadau a wneir *ar fyrder* yn ystod ymweliadau; annogaeth i ystyried codi lefel rhai hyfforddeion fu dan sylw eleni wrth drafod y canlyniadau. Nid asesu lefelau unigolion yw pwrpas y broses cymedroli, ond sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y Canolfannau.

4.2.5 Enghreifftiau o arfer dda

Gwelwyd defnydd ardderchog o adnoddau gwefan Y Porth mewn sefydliad ble roedd arddangosfeydd lliwgar a deniadol o waith iaith yn yr ystafelloedd dysgu a chasgliad o'r matiau iaith (wedi eu lamineiddio a'u chwyddo i faint A3) o fewn cyrraedd pob hyfforddai. Diddorol oedd deall bod hyfforddeion wedi mynd â deunyddiau fel y matiau i'w defnyddio ar brofiad ysgol a bod athrawon profiadol yn rhyfeddu bod adnoddau o'r math ar gael iddynt eu defnyddio gyda disgyblion Blynyddoedd Cynnar a CA2.

Bu cyfleoedd i hyfforddeion ymweld â mannau o ddiddordeb a darganfod pwysigrwydd ehangu, gweld a phrofi potensial profiadau o'r math a chyplysu argymhellion y Cwricwlwm Cymreig â dysgu iaith, mae'n arddangos y cyfleoedd sydd i ddatblygu, defnyddio a dysgu iaith ar draws y cwricwlwm.

Ceisiwyd partneru dysgwr â siaradwr Cymraeg hefyd; dyma'r ffordd ymlaen ond nid yw'n hawdd ei weithredu. Gyda gallu a chefndir ieithyddol yn amrywio cymaint o fewn grŵp, heb sôn am flwyddyn a'r amrywiaeth rhwng sgiliau hyfforddeion yn ychwanegu at gymhlethdodau grwpio llwyddiannus, mae'n dda gweld bod modd creu mantais o hynny trwy ffurfio partneriaid iaith sy'n annog a chefnogi datblygiad. Roedd rhai Canolfannau wedi newid y drefn gan ail grwpio'n fwy llwyddiannus yn ystod y flwyddyn a'u myfyrwyr yn ddiolchgar iawn am yr ail drefnu hyn ac yn deall bod hynny'n ychwanegu at bwysau gwaith arweinydd cwrs a thiwtor. O arddangos yr hyblygrwydd i ail grwpio er mwyn sicrhau llwyddiant, daw'r tiwtoriaid ag enghraifft arall o arfer dda i sylw eu myfyrwyr.

Wrth ddarllen cynnwys Portffolio sawl hyfforddai, gellir adrodd bod y tasgau yn safonol, yn gosod her o flwyddyn i flwyddyn a'u perthnasedd i ddatblygu sgiliau iaith darpar athrawon yn amlwg. Wrth i bob Canolfan sefydlu'r arfer o

greu Portffolio cyfredol dros y flwyddyn nesaf, daw tracio datblygiad a mesur safonau yn haws; mae'n amlwg eisoes bod cynnwys yr hyn a gyflawnir o werth i unigolion ar gwrs blwyddyn TAR neu BA dair blynedd ac yn ganllaw defnyddiol ar ddechrau gyrfa. Mae'n gymorth mawr i gymedrolydd drafod profiadau addysgiadol perthnasol gyda'r dysgwr a mesur safon a chywirdeb iaith.

4.2.6 Sylwadau Pellach

Pleser dweud bod nifer o gyfweliadau wedi eu cynnal yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg a bod safon Cymraeg nifer o'r hyfforddeion yn gyfoethog; eraill yn llwyddo i gyfathrebu'n eglur a hyderus mewn sefyllfa cyfweliad ffurfiol a llawer o hyfforddeion ar lefelau is yn awyddus iawn i barhau i ddysgu ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r awydd i ddatblygu ac ehangu sgiliau yn argoeli'n dda at ddyfodol dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd, ond mae hefyd yn angenrheidiol gwarchod darpar athrawon sy'n ddysgwyr wrth iddynt gychwyn gyrfa.

5. Argymhellion

5.1 Cefnogaeth

Dylid sicrhau bod athrawon sydd newydd gymhwyso'n parhau i dderbyn cyfleoedd i fireinio ac ymarfer yr iaith yn gyson yn enwedig yn ystod eu blwyddyn anwythiad, gyda'r ddealltwriaeth y byddai cyfnod hwy yn ddymunol. Yn anffodus, nid yw'n digwydd yn y mwyafrif o ysgolion ac mae'n angenrheidiol rhoi ystyriaeth bellach i'r mater ar fyrder.

[*Nodwyd hyn yn glir yn Adroddiad 2013-2014 hefyd yn Adran 9, Rhan B, pwynt 4 '…myfyrwyr newydd gymhwyso i dderbyn hyfforddiant bellach a thracio gofalus'*]

5.2 Y Porth

Syndod oedd deall wrth sgwrsio bod nifer o hyfforddeion prin yn ymwybodol o fodolaeth gwefan Y Porth er bod cyfeiriadau at gynnwys y wefan mewn

dogfennaeth a sôn am y cynnwys yn ystod tiwtorial a darlith. Mae'r cyfoeth o adnoddau a'r wybodaeth yn werthfawr, ond wrth ofyn eu barn am y ddarpariaeth, nid oedd ymateb pawb yn ôl y disgwyl. Felly mae angen atgoffa hyfforddeion am Y Porth, ond angen hefyd codi ymwybyddiaeth o fodolaeth y deunydd o fewn ysgolion. Mae'r adnoddau yno i'w defnyddio ac mae'n bwysig ehangu'r neges i sicrhau bod pob athro ysgol gynradd yn ymwybodol o argaeledd y deunyddiau arbennig yma ac yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth.

[Gweler hefyd *Adroddiad 2013-2014, Adran 9, Rhan A, pwynt 6 '…argymell hyfforddeion i ddefnyddio adnoddau ar lein..'*]

5.3 Amserlennu a staffio sesiynau

Y mae'n angenrheidiol mynnu darpariaeth deilwng gydag amserlennu teg a staffio digonol ymhob Canolfan er mwyn sicrhau bod darpar athrawon ac athrawon sydd ar fin cymhwyso yn meddu'r sgiliau a'r hyder i hyfforddi disgyblion i lwyddo, (ar ba bynnag lefel) i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson a chywir, datblygu'n siaradwyr rhugl sy'n gallu cyfathrebu'n ddeallus trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ysgolion cynradd Cymru. [Gweler hefyd *Adroddiad 2013-2014, Adran 9, Rhan B, pwynt 5 '…staffio cymwys ymhob canolfan…'*]

5.4 Amselenni ymweliadau cymedroli

Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i'r myfyrwyr, staff a'r Cymedrolydd mae angen sicrhau bod y Cymedrolydd yn gweld sampl o bob set o fyfyrwyr oddi fewn i bob Canolfan.

Fel y nodwyd eisoes, bu'n anodd trefnu ymweliadau cymedroli eleni. Gweithredwyd y cymedroli dros gyfnod eang, sef rhwng 10 Mawrth a 24 Ebrill 2015. Awgrymir bod canolfannau yn amserlenni ymweliadau'r cymedrolydd ac yn cadarnhau'r dyddiadau cymedroli ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yng nghyfarfod blynyddol y Cynllun. Anelir at gwblhau'r cymedroli oddi fewn i bob canolfan o fewn cyfnod o 3 wythnos. Gall y Cymedrolydd fod yn hyblyg ac ymweld â myfyrwyr oddi fewn i ysgolion os ydy hynny'n hwyluso trefniadau.

5.5 Partneriaeth gydag ysgolion

Darganfyddiad arall, nad yw'n fater newydd yw pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth penaethiaid, athrawon a staff atodol ysgolion partneriaeth y Canolfannau. Trist nodi nad pob hyfforddai sy'n cael profiadau positif o fewn cyfnodau ysgol, er y disgwyliadau, y gofynion a'r paratoi yn y colegau; cyfeiriodd nifer ohonynt at y rhwystredigaeth yma yn ystod y cyfweliadau. Wrth gychwyn dysgu'r Gymraeg o fewn fframwaith y Cynllun mae amryw yn siomedig na chant gyfle i gyfrannu mewn gwersi Cymraeg nag hyd yn oed arsylwi pan fo dosbarth yn derbyn gwers gan athro neu athrawes fro neu arbenigwr o fewn yr ysgol. Maent yn eiddigeddus o'r cymheiriaid hynny sy'n cael profiadau positif yn ystod Profiad Ysgol.

Mae parodrwydd mentoriaid cynradd i arddangos a chynnig cyngor i hyfforddeion sy'n ddysgwyr ac angen cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg yn y dosbarth yn ystod cyfnodau profiad ysgol (a chyfnod anwythiad) yn hanfodol bwysig. Wrth ddiogelu datblygiad a thyfiant addysgu'r Gymraeg i'n dysgwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen a CA2 mae cyfraniad athrawon ysgolion partneriaeth yn hanfodol; mae'n rhan annatod o'r broses ac mae angen sicrhau bod pob hyfforddai yn derbyn arweiniad teilwng a bod hynny'n digwydd, nid mewn rhai ysgolion ond ymhob ysgol bartneriaeth. Tybed felly a oes angen ystyried trefnu cynnal sesiynau HMS i egluro'n llawnach a chyflwyno cynnwys gwefan Y Porth i gyfrannwyr yr ysgolion partneriaeth, neu i fentoriaid o fewn ardaloedd pob Canolfan? Gallai gweithredu yn y fath fodd fod yn fuddiol i'r ysgolion a'r Canolfannau mewn sawl ffordd.

[Gweler hefyd *Adroddiad 2013-2014, Adran 9, Rhan A, pwynt 5 'disgwyliadau profiad ysgol..'*]

Heb gymorth ac ymrwymiad mentoriaid cynradd, sy'n cynghori hyfforddeion ar gyfnodau profiad dysgu a chynnig sylfaen gadarn iddynt, bydd datblygiad a pharhad addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr ifanc ar dir sigledig. Ond mae angen cymryd cam pellach i sicrhau datblygiad digonol at y dyfodol a diogelu llwyddiant dysgu'r Gymraeg. Mae'n angenrheidiol i ysgolion cynradd dwyieithog ymrwymo i'r addysgu (boed ysgol bartneriaeth neu beidio) ac wedi hynny sicrhau trwy greu ymwybyddiaeth bellach bod pontio cryf rhwng

ysgolion cynradd ac uwchradd i osgoi argyfwng yn hanes addysgu'r iaith allai arwain at oblygiadau pellgyrhaeddol.

Wrth gloi, cyfeirir yn fyr at y trafodaethau eang diweddar a'r Adroddiadau a gyhoeddwyd am ddyfodol, ffurf a strwythur addysgu'r Gymraeg a'r sector addysg Gymreig yn gyffredinol, rhai o'r pwyntiau a godwyd yw:

- y galw cyson am weithredu yn dilyn canlyniadau cyfrifiad 2011, pan nodwyd difrifwch dirywiad yr iaith
- y ddadl na all y Gymraeg fod yn '*ail iaith*' a'i bod yn perthyn i bob Cymro a Chymraes ifanc yng Nghymru
- yr awgrym y dylid sicrhau bod disgyblion yn derbyn rhan o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a'i bod yn fethiant addysgiadol os ydynt yn gadael yr ysgol heb allu cyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg yn eu gwlad eu hunain
- yr angen am sefydlu darpariaeth bellach ac argymhelliad i'r Gymraeg fod yn orfodol hyd 16 oed, gyda'r disgwyl bod dysgwyr yn ennill cymhwyster gweithrediadol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol

Yn ystod cyfnod cymedroli eleni dywedodd sawl dysgwr o fewn mwy nag un Canolfan, sydd bellach yn siaradwr Cymraeg hyderus, eu bod yn ymwybodol iawn i'w llwyddiant a'u gallu i siarad a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ddeillio o'r profiadau a'r gwersi Cymraeg a gawsant tra yn ddisgyblion ysgolion cynradd.

Yng Nghyfarfod Blynyddol 2013-2014 trafodwyd pwysigrwydd tracio athrawon newydd gymhwyso a sefydlu sustem fydd yn derbyn gwybodaeth am eu datblygiad ieithyddol a phroffesiynol. Mae cyflwyno cyfleoedd iddynt ymaelodi, ymweld â mudiadau a chyrff Cymreig amrywiol i deimlo'n rhan o'r gymdeithas yn berthnasol iawn fel eu bod yn ehangu eu profiadau a'u datblygiad fel athrawon Cymraeg llwyddiannus ar bob lefel. Mae galw felly am ddatblygu a pharhau amcanion a bwriadau'r Cynllun wrth i'r hyfforddeion sy'n dilyn y Cynllun ddatblygu'n athrawon cymwysedig ar gychwyn gyrfa. Hwy fydd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf o Gymry ifanc; maent yn haeddu'r arfau gorau i gyflawni'r her.

Atodiad A: Crynodeb Data Cynllun Colegau Cymru 2015

Niferoedd sy'n astudio'r ddau gwrs ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

	De Ddwyrain		De Orllewin		Gogledd		Cenedlaethol	
	2014	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**
Cwrs BA	48%	45%	31%	29%	27%	25%	35% (182)	33% (173)
Cwrs TAR	52%	55%	69%	71%	73%	75%	65% (336)	67% (356)
Cyfanswm	**166**	**175**	**179**	**180**	**173**	**174**	**518**	**529**

Cyrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs BA

	De Ddwyrain		De Orllewin		Gogledd	
Cam	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**
Cam 1	0%	3%	18%	33%	65%	58%
Cam 2	81%	69%	61%	50%	26%	35%
Cam 3	19%	28%	21%	17%	9%	7%
Cyfanswm	**80**	**78**	**56**	**52**	**46**	**43**

Cwrs TAR

	De Ddwyrain		De Orllewin		Gogledd	
Cam	2014	2015	2014	2015	2014	2015
Cam 1	45%	46%	32%	27%	72.5%	70%
Cam 2	35%	24%	52%	54%	9.5%	20%
Cam 3	20%	30%	16%	19%	18%	10%
Cyfanswm	**86**	**97**	**123**	**128**	**127**	**131**

Cyrhaeddiad manwl myfyrwyr ar draws y Canolfannau fesul blwyddyn

Cwrs BA

	De Ddwyrain		De Orllewin		Gogledd		Cenedlaethol	
	2014	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**
Cam 1*	0%	0%	0%	2%	0%	0%	0%	1%
Cam 1**	0%	1%	0%	15%	4%	26%	1%	12%
Cam 1***	0%	1%	18%	15%	61%	33%	21%	13%
Cam 2*	1%	5%	41%	21%	15%	28%	17%	16%
Cam 2**	52%	25%	14%	15%	7%	7%	29%	18%
Cam 2***	29%	38%	5%	13%	4%	0%	15%	21%
Cam 3*	12%	15%	13%	8%	2%	0%	10%	9%
Cam 3**	6%	13%	4%	4%	2%	7%	4%	9%
Cam 3***	0%	0%	5%	6%	5%	0%	3%	2%
Cyfanswm	**80**	**78**	**56**	**52**	**46**	**43**	**182**	**173**

Cwrs TAR

	De Ddwyrain		De Orllewin		Gogledd		Cenedlaethol	
	2014	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**	**2014**	**2015**
Cam 1*	10.5%	21%	1%	0%	38%	57%	17%	27%
Cam 1**	17.4%	11%	11%	4%	21%	9%	17%	8%
Cam 1***	17.4%	14%	20%	23%	13%	4%	17%	14%
Cam 2*	5.8%	0%	22%	28%	8%	4%	12%	12%
Cam 2**	22.1%	6%	20%	19%	1%	7%	13%	11%
Cam 2***	7.0%	18%	11%	7%	1%	9%	6%	11%
Cam 3*	17.4%	20%	5%	3%	7%	6%	9%	9%
Cam 3**	2.3%	4%	6%	5%	9%	4%	6%	4%
Cam 3***	0.0%	6%	6%	10%	2%	0%	3%	5%
Cyfanswm	**86**	**97**	**123**	**128**	**127**	**131**	**336**	**356**